

## Canllaw ar ymchwiliadau annibynnol IOPC

### Beth yw gwaith yr IOPC?

Rydym yn sefydliad annibynnol ac arbenigol a sefydlwyd i sicrhau bod yr heddlu yn fwy atebol i'r cyhoedd.

Rydym wedi'n cyllido gan y Swyddfa Gartref ac yn cynnal ein hymchwiliadau ein hunain i'r digwyddiadau a honiadau mwyaf difrifol a sensitif sy'n ymwneud â'r heddlu.

Rydym yn gorff diduedd: rydym yn gwbl annibynnol o'r heddlu a'r llywodraeth.

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu oedd yr enw blaenorol ar y Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Daethom yn IOPC yn gynnar yn 2018 gyda strwythur newydd a rhagor o bwerau, i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Heddlu a Throseddau 2017.

Yn 2018/19, agorodd yr IOPC 687 o ymchwiliadau newydd a chau 717.

### Pwy sy'n cynnal ymchwiliadau IOPC?

Mae gennym ein hymchwilywyr ein hunain sy'n cynnal ymchwiliadau annibynnol.

Ein Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am ein gwaith i gyd.

Yn yr achosion mwyaf difrifol, mae un o'n Cyfarwyddwyr Rhanbarthol neu ein Cyfarwyddwr yng Nghymru yn gyfrifol yn uniongyrchol am y penderfyniadau allweddol yn ystod yr ymchwiliad. Mewn achosion eraill, gall y penderfyniadau hynny gael eu dirprwyo i eraill o fewn yr IOPC, fel y rheolwyr gweithrediadau.

### Beth mae ymchwiliad annibynnol yr IOPC yn ei olygu?

Bydd ein hymchwilywyr yn casglu tystiolaeth i sefydlu'r holl amgylchiadau. Gall hyn gynnwys cymryd datganiadau gan dystion, cyfweld swyddogion/aelodau o staff yr heddlu, dadansoddi lluniau CCTV a chael dogfennau eraill.

Byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd i bobl sydd ynghlwm â'n hymchwiliadau.

Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r gymuned yn ehangach efallai.

Gall ymchwiliad gynnwys hefyd:

- > dadansoddiad fforensig
- > tystiolaeth annibynnol gan arbenigwyr
- > cysylltu â'r Crwner a/neu Wasanaeth Erllyn y Goron (CPS)
- > cysylltu ag asiantaethau eraill – er enghraifft yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

### Beth sy'n digwydd pan fydd yr ymchwiliad ar ben?

Ar ddiwedd ymchwiliad, bydd ein hymchwilydd yn cynhyrchu adroddiad terfynol, pan fydd yn crynhoi ac yn dadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd.

Os byddwn o'r farn bod swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu wedi cyflawni trosedd, byddwn yn trosglwyddo ein hadroddiad i'r CPS. Y CPS fydd yn gyfrifol wedyn am benderfynu a ddylid erlyn yr unigolyn.

Byddwn yn ystyried a ellid gweithredu mewn ffordd benodol i sicrhau na fydd rhywbeth tebyg yn digwydd eto ac yn datgan os credwn y gallai'r heddlu ddysgu gwersi yn sgil hyn.

Pan gynhelir cwest, rydym yn darparu adroddiad a thystiolaeth i'r Crwner i'w hystyried yn y cwest.

Bydd ein hadroddiad terfynol yn esbonio ein barn ar ymddygiad, perfformiad neu ddysgu. Byddwn yn anfon ein hadroddiad i'r heddlu dan sylw ac yn gofyn am eu barnau. Tra byddwn yn ystyried y barnau hynny, bydd ein penderfyniad terfynol ar beth sy'n digwydd nesaf yn seiliedig ar ein hymchwiliad.

Byddwn hefyd yn rhoi copi o'r adroddiad i bartïon â diddordeb.

## Proses ymchwiliad annibynnol gan yr IOPC

### Ein cam cyntaf o weithredu:

- > Bydd ein staff yn mynd i'r lleoliad (os bydd angen hynny) ac yn rhoi cyfarwyddiadau i'r heddlu lleol am gasglu tystiolaeth, diogelu'r safle, a sicrhau tystiolaeth gan swyddogion a staff a oedd yn rhan o'r digwyddiad.
- > Bydd ein staff yn cychwyn casglu gwybodaeth.
- > Byddwn yn ystyried unrhyw arwyddion o nodweddion troseddol neu ymddygiadol.
- > Byddwn yn amlygu unrhyw beth a ddysgir ar unwaith.

### Rydym yn cysylltu â'r:

- > teulu
- > Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)
- > y Crwner
- > y cyfryngau
- > y gymuned

### Byddwn yn ymchwilio, gan gynnwys:

- > asesu cwestiynau gan y teulu neu'r sawl sy'n cwyno
- > cytuno ar y cylch gorchwyl
- > casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth, gan gynnwys datganiadau tystion, data CCTV a data technegol arall, polisïau, tystiolaeth fforensig, a thystiolaeth arbenigwyr annibynnol
- > cyfweld tystion/rhai dan amheuaeth, gan gynnwys swyddogion yr heddlu
- > ystyried y defnydd o bwerau cyfreithiol os bydd angen. Er enghraifft, mewn ymchwiliadau troseddol, mae gan ein hymchwilyr yr un bwerau a'r hawliau â swyddog yr heddlu, fel y pŵer i arestio neu gymryd tystiolaeth.
- > cyswllt parhaus â'r teulu, CPS, y Crwner, y cyfryngau a'r gymuned

### Byddwn yn cynhyrchu adroddiad ar yr ymchwiliad



Byddwn yn penderfynu a ddylid cyfeirio at y CPS, a fydd wedyn yn penderfynu erlyn neu beidio.	Byddwn yn penderfynu os oes angen cymryd camau disgyblu neu berfformiad.	Bydd yr heddlu'n derbyn yr adroddiad ac yn gallu cyflwyno sylwadau.	Byddwn yn ystyried y barnau hynny, ond yn gwneud penderfyniad terfynol ar beth sy'n digwydd yn seiliedig ar ein hymchwiliad.
Byddwn yn rhannu canlyniadau'r adroddiad gyda'r teulu/sawl sy'n cwyno.	Heddlu yn cynnal achos disgyblu neu berfformiad.	Byddwn yn amlygu'r pethau a ddysgwyd o'r achos a rhannu hynny â'r heddlu.	Adrodd a rhoi tystiolaeth i unrhyw achos neu gwest (gall hyn ddigwydd cyn neu ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben).

**Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yr ymchwiliad neu grynodedb anhysbys o'r ymchwiliad** (fel arfer ar ôl y cwest; cwblhau'r erlyniad a/neu gamau disgyblu)

### Sut allaf gael gwybod mwy?

Gallwch ddysgu rhagor am system gwynion yr heddlu a gwaith yr IOPC ar ein gwefan – [www.policeconduct.gov.uk](http://www.policeconduct.gov.uk) – neu ffoniwch ein tîm Gwasanaeth Cwsmer, sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm – **0300 020 0096**.